

Rhaglen Datblygu Cig Coch Crach ymgrafol mewn gwartheg



Yn ddiweddar, mae'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol (VLA) wedi gwneud diagnosis o'r grach ymgrafol, sy'n cael ei hachosi gan widdon *Psoroptes* sp. mewn deg buches yng Nghymru gyda chwedlau o heintiau ar dau fferm arall. Dyma'r achosion cyntaf a welwyd ym Mhrydain ers y 1980au, ac mae'n debygol fod yr heintiad wedi dod o Ewrop. Nid oes unrhyw gysylltiad ag achosion o *Psoroptes ovis* (y clafr).

Sut mae modd adnabod y grach?

Mae'r arwyddion clinigol yn fwy cyffredin yn yr hydref a'r gaeaf. Mae'r gwiddon *Psoroptes* sp yn achosi clefyd croen difrifol a bydd crach yn ffurfio ar hyd cefn, ysgwyddau a bôn cynffon y gwartheg. Mae yna gosi difrifol.

Gall yr anifail golli llawer o bwysau a marw os yw'r anafiadau ar y croen yn helaeth.

Yn ystod yr haf, mae'r gwiddon yn llai prysur a dydyn nhw ddim mor niferus.

Gall unrhyw frid o wartheg gael ei heintio, ond gall y clefyd fod yn arbennig o ddifrifol mewn gwartheg Glas Prydeinig. Mae'r rhan fwyaf o achosion a gafwyd hyd yma wedi bod mewn buchesi cig eidion, ond darganfuwyd un heintiad mewn buches odro.

Prynu gwartheg wedi'u heintio yw'r ffordd fwyaf tebygol o gael y clefyd. Gall ymledu wrth i anifeiliaid gyffwrdd â'i gilydd yn y farchnad neu mewn lorïau. Gall fod yn anodd sylwi ar y clefyd yn ystod y cyfnod cynnar, neu yn ystod misoedd yr haf pan fo nifer y gwiddon yn isel a phan fo arwyddion clinigol yn anodd eu gweld.

Beth dylech chi neud?

Os ydych yn amau bod eith gwartheg yn dioddef o Crach Tmgrafol dylech siarad gyda'ch milfeddyg a fydd yn gallu adnabod y gwiddon o'r crafiadau croen. Dylai ffermwyr gael gair â'u milfeddyg oherwydd

dydy'r driniaeth ddim yn syml. Bydd methu lladd y gwiddon yn arwain at achosion mwy difrifol o'r clefyd ac yn golygu ei fod yn fwy tebygol o ymledu i anifeiliaid eraill ar y fferm neu i fuchesi eraill.

Mae'r rhan fwyaf o'r achosion a gadarnhawyd hyd yma wedi methu ymateb i lacton macroseiclig (ML), sef y driniaeth a drwyddedwyd ar gyfer crach ymgrafol. Mae'n rhaid wrth driniaethau eraill – a hynny'n amlach o hyd – wedi'u rhagnodi gan eich milfeddyg. Yn yr achosion yma dylid ddefnyddio triniaethau eraill a awgrymwyd gan eich milfeddyg, ond bydd angen eu gwneud yn fwy aml.

Mae hefyd yn ofynnol tynnu a dinistrio crach trwy cneifio a golchu gyda siampw cyn unrhyw driniaeth oherwydd gallant amddifyn y gwiddon yn erbyn triniaeth.

Mae'n bwysig dros ben i'ch milfeddyg gymryd samplau er mwyn gwneud diagnosis a darganfod pa mor effeithiol yw'r driniaeth, oherwydd gall arwyddion clinigol ddechrau cilio ar ôl rhai triniaethau, er y bydd gwiddon byw yn dal i fodoli.

Dylid rhoi triniaeth i'r holl anifeiliaid yn y grŵp, ynghyd ag unrhyw anifeiliaid a fu mewn cyffyrddiad. Hefyd, dylid rhoi gwybod am unrhyw anifeiliaid a gafodd eu symud o sied heintiedig (gall gwiddon fyw oddi ar anifeiliaid a bod yn heintiol am o leiaf 12 diwrnod). Os ydy'r sied heintiedig yn cael eu cadw'n glir o wartheg am nifoer o misoedd fydd y tebygrwydd o'r haint yn dychwelyd yn lleihau.

Mae'n hanfodol fod o ddifrif yn glŷn â'r clefyd hwn a'i drin yn effeithiol. Mae profiad o wledydd Ewropeaidd eraill wedi dangos fod modd i hwn fod y clefyd croen mwyaf cyffredin mewn gwartheg, gan achosi colledion cynhyrchu difrifol.

Er nad yw hwn yn glefyd hysbysadwy, byddai'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol yn hoffi clywed am unrhyw achosion dan amheuaeth o grach ymgrafol mewn gwartheg, allwn cynghori eich milfeddyg yn glŷn â thriniaeth effeithiol a dal i fonitro'r bygythiad difrifol hwn i'r diwydiant gwartheg.

Byddwchystal â rhoi gwybod i'ch labordy rhanbarthol lleol yng Nghaerfyrddin (Ffon 01267 235244), Aberystwyth (Ffon 01970 612374 neu Amwythig (Ffon 01743 467621) am unrhyw achosion dan amheuaeth.

Rheolir y Rhaglen Datblygu Cig Coch gan Hybu Cig Cymru (HCC) ar ran Cyswllt Ffermio.

